TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Diploma Sylfaen Genedlaethol mewn Cerddoriaeth (llwybr Technoleg) Lefel 3



**Yn gryno**

Cwrs ymarferol yw hwn sy'n datblygu eich sgiliau ar gyfer gyrfa yn y diwydiant cerddoriaeth neu'r celfyddydau perfformiadol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Oes gennych gariad at gerddoriaeth a thechnoleg cerdd

... Ydych eisiau gwella eich sgiliau cerddorol presennol

... Ydych eisiau cynyddu eich cyfleoedd am waith yn y maes hwn

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae hwn yn gwrs ymarferol lle byddwch yn astudio pynciau megis:

Gweithio mewn stiwdio recordio gan ddefnyddio Pro Tools / Logic Pro X
Trefnu a chyfansoddi gan ddefnyddio Logic Pro X
Goleuo a sain fyw
Technoleg cerddoriaeth mewn perfformiadau, gan gynnwys Ableton Live a sgiliau DJ
Technegau cynhyrchu cerddoriaeth a sgiliau cymysgu
Y diwydiant cerddoriaeth

Mae'n well os ydych yn chwarae offeryn neu â gwybodaeth dda am hanfodion cynhyrchu cerddoriaeth. Bydd angen ichi ddangos hynny yn eich cyfweliad/clyweliad.

Darperir y cwrs drwy gyfuniad o'r canlynol:

Sesiynau a gweithdai ymarferol
Gweithgareddau ystafell ddosbarth
Gwaith grwp, fel dosbarth cyfan neu mewn grwpiau arbenigol
Astudio annibynnol
Tiwtorialau personol

Bydd myfyrwyr y flwyddyn gyntaf yn rhedeg y stiwdio fel busnes drwy gydol y flwyddyn, gan ennill profiad o waith realistig yn y diwydiant a gweithio ar wahanol brosiectau Cyfryngau/Dylunio Gemau/Celfyddydau Perfformio. Creu deunydd cerddoriaeth yn Logic Pro X a datblygu sgiliau DJ / Ableton live ar gyfer sioe fyw ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae myfyrwyr yr ail flwyddyn yn cymryd cyfrifoldeb am osod a rhedeg system sain lawn a system oleuo ar gyfer gweithdai wythnosol yn y theatr. Ceir hefyd 6 noson gerddoriaeth sydd ar agor i'r cyhoedd. Myfyrwyr yr ail flwyddyn fydd yn cynnal y rhain hefyd. Bydd myfyrwyr hefyd yn creu a rhyddhau eu cerddoriaeth eu hunain, gan ei chyhoeddi drwy wefan wedi ei chreu gan y myfyrwyr yn unigol.

Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus, yn bennaf drwy aseiniadau ymarferol; gyda gwaith ysgrifenedig i ategu'r sgiliau y byddwch yn eu datblygu fel myfyriwr cerddoriaeth. Byddwch yn cyflawni:

Lefel 3 mewn Technoleg Cerddoriaeth

[Gweithgareddau Sgiliau]

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Bydd angen o leiaf 5 TGAU Gradd neu uwch arnoch, gan gynnwys naill ai Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, neu gymhwyster Diploma Lefel 2 gyda Gradd Teilyngdod a TGAU yn cynnwys naill ai Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf Gradd C neu uwch.

Mae ymroddiad llwyr i bresenoldeb yn ofynnol, ynghyd â pharch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc, hunanysgogiad, gallu creadigol ac awydd i lwyddo.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd cwblhau diploma 90-credyd Blwyddyn 1 yn llwyddiannus yn eich galluogi i symud ymlaen i'r ail flwyddyn a chwblhau'r Diploma Estynedig llawn. O'r fan honno, mae llwybrau cynnydd yn cynnwys:

Gradd Sylfaen mewn Technoleg Cerdd (ar gael ar Gampws Crosskeys)
Gradd neu gyrsiau diploma cenedlaethol uwch mewn sefydliadau AU eraill
Gwaith yn y diwydiant cerddoriaeth ar lefel iau

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Fel rhan o'r gofynion mynediad bydd disgwyl i chi fynychu sesiwn brofi lle byddwch yn cymryd rhan mewn clyweliad.